Ymgynghorwyr cymorth prosiect (fframwaith RoSS)

Mae ein Cofrestr Gwasanaethau Cymorth (RoSS) yn fframwaith o ymgynghorwyr allanol rydym yn eu defnyddio i helpu i gyflwyno'r prosiectau a ariannwn yn llwyddiannus.

Mae ein ymgynghorwyr RoSS arbenigol yn chwarae rôl bwysig wrth fonitro'r prosiectau a ariannwn a mentora grantïon a darpar ymgeiswyr. Maent hefyd yn darparu cyngor arbenigol i'r Gronfa Treftadaeth ynghylch yr ystod amrywiol o brosiectau a cheisiadau a ariannwn.

Mae ein cofrestr ymgynghorwyr wedi'i rhannu'n bedwar maes arbenigedd:

1. rheoli prosiect adeiladu treftadaeth a diwylliant
2. datblygu a rheoli busnesau
3. ennyn diddordeb y cyhoedd mewn treftadaeth
4. yr amgylchedd naturiol

Beth maen nhw'n ei wneud?

Mae ymgynghorwyr RoSS yn darparu amrywiaeth o wasanaethau:

- **Cymorth monitro:** dadansoddi risgiau, gwneud sylwadau ar gynlluniau prosiect, adolygu cyllidebau a chynnydd yn erbyn amserlenni a gwerthuso effeithiau prosiectau.
- Close up of an outdoors panel which contains Welsh-language text

  Panel dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn Sain Ffagan.

  Cymorth mentora: helpu grantïon i ddatblygu eu prosiectau, cefnogi gweithgareddau dysgu a datblygu a goresgyn rhwystrau wrth gyflwyno eu prosiectau.
- **Cefnogi staff y Gronfa Treftadaeth:** darparu hyfforddiant a chyngor ar bynciau arbenigol.
- **Sesiynau trafod i grantïon:** hwyluso 'cymorthfeydd bach' gyda grantïon ar wahanol bynciau, megis gwirfoddoli.
- **Adolygiadau ôl-gwblhau a pharodrwydd i weithredu:** helpu grantïon i ddeall 'parodrwydd' prosiectau i agor i'r cyhoedd. Nodi risgiau ôl-gwblhau a chytuno ar gamau adferol.
- **Cefnogi ein gwaith ymgysylltu:** darparu cymorth i dimau Ymgysylltu'r Gronfa Treftadaeth, er enghraifft wrth fentora ac ymgysylltu ag ymgeiswyr sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol.
- **Darparu cyngor arbenigol:** cefnogi proses gwneud penderfyniadau'r Gronfa Treftadaeth drwy ddarparu cyngor arbenigol ynghylch agweddau ar gais gan brosiect.
- **Darparu cymorth i grwpiau o grantïon:** mentora grwpiau bach o grantïon, gan helpu nhw i ymdrin â heriau a'u hannog i rwydweithio.

Ein fframweithiau presennol

Inside a grand auditorium

Y tu fewn i Grand Opera House, Belfast.

Dechreuodd y fframwaith presennol ar 1 Ebrill 2018 a bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024.

Mae gennym hefyd fframwaith sy'n arbenigo mewn treftadaeth ddigidol. Dechreuodd y fframwaith dwy flynedd hwn ar 1 Ebrill 2022 a bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024. Ni fydd yn cael ei ail-dendro.

Caffael y fframwaith nesaf

Penodir ymgynghorwyr i'r fframwaith drwy broses dendro sy'n cydymffurfio â gofynion caffael y sector cyhoeddus.

Bydd y broses o werthuso a dewis tendrau yn cael ei chwblhau ddiwedd hydref 2023, ac fe fydd y fframwaith newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2024.

> Two young people use a computer
>
> Yn Amgueddfa Summerlee, Coatbridge, Yr Alban.

Dod yn ymgynghorydd RoSS

Mae cam un y cyfle tendro ar gyfer ymgynghorwyr ar y Fframwaith nesaf bellach wedi'i gwblhau ac nid ydym yn derbyn unrhyw gyflwyniadau newydd.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau